WHC 2016/029

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi: 5th Mai 2016**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**STATWS: CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI: PERFFORMIAD / CYFLENWI**

**Teitl:** Canllawiau Trosglwyddo Ysbytai GIG Cymru

**Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad:** Ddim yn berthnasol

| **I'w weithredu gan:** | **Angen gweithredu erbyn:** |
|---|---|
| Byrddau Iechyd<br>Ymddiriedolaethau | Ar unwaith |

**Anfonwr:** Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**
**Brent Shurn** brent.shurn@cymru.gsi.gov.uk

Is-Adran Cyflawni a Pherfformiad, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 4ydd Llawr, Parc Cathays 2, Caerdydd. CF10 3NQ. Brent.shurn@wales.gsi.gov.uk. 02920 825975

**Dogfennau amgaeedig:**

- Llythyr, Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru
- Atodiad 1 – Canllawiau Trosglwyddo Ysbytai GIG Cymru – Nodyn cefndirol:
- Canllawiau Trosglwyddo Ysbytai GIG Cymru – 05 Mai 2016

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Byrddau Iechyd Lleol
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Ein Cyf: AG/

5 Mai 2016

**CANLLAWIAU TROSGLWYDDO YSBYTAI GIG CYMRU**

Annwyl Cydweithwyr,

Yr wyf yn ysgrifennu i'ch cyfeirio at Gylchlythyr Iechyd Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n ymwneud â chanllawiau diwygiedig Trosglwyddo Ysbytai GIG Cymru.

Cyhoeddwyd canllawiau Trosglwyddo Ysbytai GIG Cymru ar ran y Bwrdd Llywio Gofal heb ei drefnu ar 25 Chwefror 2015 ac yn dilyn adolygiad, diwygiwyd y canllawiau er mwyn ei roi ar waith ar unwaith. Amgaeaf gopi er hwylustod. Ceir dolen at y canllawiau http://extranet.wales.nhs.uk/howis/whcirculars.cfm?filter=2016.

Byddwch yn ymwybodol o'r pwysigrwydd yr ydw i a Gweinidogion Cymru yn rhoi ar y trosglwyddo amserol o gleifion o gerbydau ambiwlans i staff yn yr ysbytai. Byddwn felly yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth i sicrhau bod eich sefydliadau yn cadw at y canllawiau hyn i optimeiddio perfformiad a gofal cleifion.

Yn olaf, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi ymwneud â datblygu'r canllawiau allweddol hyn ac i'r staff ar y rheng flaen sy'n gweithio'n galed i gyflawni'r gwelliannau yr ydym i gyd yn ceisio'i gyflawni.

Yn gywir,

Dr Andrew Goodall

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk

Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

**Atodiad 1 CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU WHC 2016/029**

Canllawiau Trosglwyddo Ysbytai GIG Cymru.

Cefndir

1. Ar 25 Chwefror 2015, wnaeth yr Athro Adam Cairns, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chadeirydd y Grŵp Llywio Gofal heb ei Drefnu, gyhoeddi canllawiau Trosglwyddo Ysbytai Cymru. Cafodd y canllawiau hyn ei gymeradwyo gan Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae angen darllen y canllawiau hyn ar y cyd â pholisi uwch gyfeirio lleol pob sefydliad.

2. Dr Grant Robinson, y Swyddog Arweiniol Gofal heb ei Drefnu Clinigol yng Nghymru, ddatblygodd y canllawiau mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Meddygol, Cyfarwyddwyr Nyrsio a'r Coleg Meddygaeth Frys.

3. Gofynnodd y Grŵp Llywio Gofal heb ei Drefnu bod y canllawiau yn cael eu hadolygu ar ôl chwe mis.

4. Ar 25 Awst 2015, ysgrifennodd yr Athro Adam Cairns, i sefydliadau'r GIG yn gofyn am adborth ynghylch gweithredu'r canllawiau.

5. Cynhaliwyd adolygiad o'r canllawiau, a gwneir newidiadau yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd.

# Canllaw Trosglwyddo Ysbytai GIG Cymru fersiwn 2

## Datganiad o fwriad

**Rhaid i ddiogelwch, effeithiolrwydd ac urddas gofal cleifion fod yr ystyriaeth bennaf mewn systemau gofal brys. Mae'r gofal gorau yn cael ei ddarparu i gleifion yn yr amgylchedd gofal cywir. Pan fydd criw ambiwlans yn mynd â chlaf i'r ysbyty mae'n hanfodol eu bod yn cael eu rhyddhau'n fuan fel y gallant barhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithlon i'w cymuned leol.**

***Y Byrddau Iechyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod cludiant brys diogel ar gael, ynghyd â thriniaeth amserol, i ddinasyddion yn eu hardal leol. Pan gaiff claf ei gludo i'r ysbyty mewn ambiwlans, rhaid i'r gofal gael ei drosglwyddo i dîm yr ysbyty o fewn 15 munud. Y Byrddau Iechyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd mewn ffordd ddibynadwy. Mae gan holl aelodau tîm Gweithgor y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb arbennig i gyfleu pwysigrwydd trosglwyddiad.***

**Mae cleifion a'u gofalwyr yn bartneriaid pwysig yn y broses o drosglwyddo a derbyn i'r ysbyty. Dylai eu cyfraniad hwy fod yn rhan allweddol o gynllunio gofal brys, a phan fydd oedi'n digwydd, dylent gael eu hysbysu'n llawn am y rhesymau a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i ddatrys y sefyllfa.**

**Dylai trefniadau staffio mewn ysbytai sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth ddiogel. Dylai fod gan safleoedd ysbytai Gynlluniau Uwchgyfeirio effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau y gellir dadlwytho ambiwlansys ar yr adegau prysuraf. Dylai uwch benderfynwyr clinigol fod yn bresennol, fel mater o arferiad, wrth ddrws ffrynt yr ysbyty a dylai eu presenoldeb gael ei gryfhau fel rhan o'r cynllun uwchgyfeirio, pan fydd pwysau'n pentyrru yn y system.**

**Rhaid i Fyrddau Iechyd roi blaenoriaeth uchel i gynllunio Gofal heb ei Drefnu. Mae oedi cyn trosglwyddo mewn ysbyty yn aml yn gysylltiedig â rhwystrau i lif cleifion ymhellach ymlaen, ac mae angen gwaith ar draws holl lwybr iechyd a gofal cymdeithasol i fynd i'r afael â hyn yn iawn.**

**Mae'r camau allweddol i gefnogi'r trosglwyddiad yn yr ysbyty wedi eu hamlygu a'u crynhoi. Bwriadwyd iddynt gael eu gweithredu gan Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn y GIG ledled Cymru mewn polisïau a phrotocolau lleol, a dylid eu hymgorffori mewn Cynlluniau Uwchgyfeirio safleoedd lleol, wrth iddynt gael eu diwygio yn unol â chyngor diweddaraf Llywodraeth Cymru.**

## Camau gweithredu allweddol

1. **Dylai cynlluniau ar gyfer gofal brys gynnwys cleifion sydd â phrofiad diweddar o ofal a rhaid iddynt fod yn amlwg yn y Cynllun Tymor Canol Integredig (CTCI).**
2. **Dylai cludiant ambiwlans gael ei reoli'n weithredol gan y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST).**
3. **Dylai llwybrau gofal brys fod yn eu lle, sy'n mynd heibio'r Adran Achosion Brys.**
4. **Rhaid i lefelau staffio cynaliadwy, diogel fod wedi eu sefydlu ar gyfer gofal brys, sy'n hyblyg i ateb i'r galw, gyda lefelau priodol o oruchwyliaeth.**
5. **Dylai'r Byrddau Iechyd a WAST gyfarfod yn wythnosol i reoli'r llif gofal brys. Dylai'r cyfarfodydd hyn sicrhau bod llwybrau gofal yn eu lle sy'n adlewyrchu'r model ambiwlans pum cam, a ddefnyddir i gomisiynu gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru.**
6. **Rhaid i weithredwyr y Bwrdd Iechyd gyfleu pwysigrwydd trosglwyddiadau ambiwlans i'r staff i gyd yn aml ac mewn ffordd amlwg.**
7. **Dylai fod trefniant 'un stop' ar gyfer derbyn cleifion yn syth wedi iddynt gyrraedd yr Adran Achosion Brys.**
8. **Rhaid i staff clinigol ysbyty sicrhau bod unrhyw glaf, sy'n disgwyl mwy na 30 munud, wedi cael ei asesu a'i fod yn cael ei symud yn syth i mewn i'r ysbyty os oes perygl i ddiogelwch y claf.**
9. **Dylai'r cleifion a'u gofalwyr gael eu hysbysu'n llawn am y rheswm dros unrhyw oedi a'r cynnydd wrth geisio datrys y broblem.**
10. **Rhaid i wardiau gynyddu eu gallu i dynnu cleifion yn ddiogel allan o'r Adran Achosion Brys ar adegau pan fo'r galw ar ei uchaf. Os bydd oedi sylweddol yn digwydd mewn ambiwlans, rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod trefniadau uwchgyfeirio effeithiol ar y safle yn ei gwneud yn bosibl rhyddhau ambiwlansys yn ddiymdroi.**

## Cynllunio ar gyfer trosglwyddo

Dylai Byrddau Iechyd, ynghyd â WAST, asesu'r galw brys a chynllunio llwybrau gofal brys, mewn Cynghreiriau Gofal Acíwt lle bo'n briodol. Dylai cleifion, sydd â phrofiad diweddar o ofal brys, fod yn bartneriaid ymarferol yn y cynllunio hwn. Dylid sefydlu trefniadau effeithiol gyda gofal cymdeithasol drwy gynllunio gwasanaethau mewn ffordd integredig ar gyfer y gymuned y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gwasanaethu. Rhaid i'r broses gynllunio hon fod yn weladwy yn y Cynllun Tymor Canol Integredig a gyflwynir gan Fyrddau Iechyd i Lywodraeth Cymru, a dylai gael ei hadlewyrchu mewn protocolau a pholisïau gweithredol lleol.

**Cam Gweithredu 1 Dylai cynlluniau ar gyfer gofal brys gynnwys cleifion sydd â phrofiad diweddar o ofal a rhaid iddynt fod yn amlwg yn y Cynllun Tymor Canol Integredig (CTCI).**

Dylai proses gael ei sefydlu i reoli'r cyfnodau brig yn llif y gofal brys a dylid cynnal y broses hon mewn ffordd fydd yn atal tagfeydd wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys. Dylai prosesau clinigol fod yn eu lle i reoli cyflymdra trawsgludo (Clywed a Thrin, Gweld a Thrin) a chael eu rheoli'n weithredol ym mhob ardal Bwrdd Iechyd. Dylid sefydlu llwybrau gofal, seiliedig ar y model 5 cam, ar gyfer gwasanaethau

ambiwlans er mwyn sicrhau mai dim ond y cleifion hynny sydd angen gofal ysbyty buan sy'n cael eu cludo yno. Dylid gwneud trefniadau i fynd heibio'r angen am asesu a derbyn drwy'r Adran Achosion Brys ar gyfer cleifion priodol (e.e. bylchau brys mewn clinigau ar gyfer cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio o ofal sylfaenol).

**Cam gweithredu 2** **Dylai cludiant ambiwlans gael ei reoli'n weithredol gan y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST).**

**Cam gweithredu 3** **Dylai llwybrau gofal brys fod yn eu lle, sy'n mynd heibio'r Adran Achosion Brys.**

Rhaid bod polisi uwchgyfeirio yn ei le gyda lefelau diogel o staffio. Dylai bod gan staff ar bob gradd linellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir a lefel briodol o oruchwyliaeth (e.e. meddygon dan hyfforddiant, cynorthwywyr gofal iechyd a nyrs ymarferwyr).

**Cam Gweithredu 4** **Rhaid i lefelau staffio cynaliadwy, diogel fod wedi eu sefydlu ar gyfer gofal brys, sy'n hyblyg i ateb i'r galw, gyda lefelau priodol o oruchwyliaeth.**

Dylai timau gweithredu WAST a Byrddau Iechyd gyfarfod yn wythnosol i adolygu'r galw am ofal brys a chynllunio unrhyw fesurau angenrheidiol i fynd i'r afael â hynny. Mae'r diwylliant o ofalu yn y sefydliad o'r pwys mwyaf er mwyn sicrhau bod trosglwyddiad prydlon yn dod yn fater o arferiad mewn Byrddau Iechyd. Rhaid i dimau gweithredu Byrddau Iechyd sicrhau bod pwysigrwydd osgoi oedi ar adeg trosglwyddo o ambiwlans yn cael ei gyfleu'n effeithiol i'r holl staff drwy ei bwysleisio'n weladwy ac yn aml.

**Cam Gweithredu 5** **Dylai'r Byrddau Iechyd a WAST gyfarfod yn wythnosol i reoli'r llif gofal brys. Dylai'r cyfarfodydd hyn sicrhau bod llwybrau gofal yn eu lle sy'n adlewyrchu'r model ambiwlans pum cam, a ddefnyddir i gomisiynu gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru.**

**Cam Gweithredu 6** **Rhaid i weithredwyr y Bwrdd Iechyd gyfleu pwysigrwydd trosglwyddiadau ambiwlans i'r staff i gyd yn aml ac mewn ffordd weladwy.**

## Cyfathrebu cyn i'r claf gyrraedd

### Cleifion sydd angen eu hadfywio ar unwaith

Pan fydd ar glaf angen triniaeth achub bywyd yn syth ar ôl cyrraedd yr ysbyty, rhaid i griw'r ambiwlans roi rhybudd ymlaen llaw i'r ysbyty. Unwaith y bydd yr ambiwlans wedi cyrraedd yr ysbyty rhaid mynd â'r claf yn syth i'r rhan adfywio. Dylai trefniadau uwchgyfeirio effeithiol fod wedi eu sefydlu yn yr ysbyty i alluogi'r Adran Achosion Brys i wneud lle i gleifion sydd angen adfywiad. Ni ddylid dargyfeirio'r cleifion hyn ond fel y dewis olaf. Os bydd yr ysbyty sy'n derbyn yn methu â dadlwytho'r ambiwlans ar unwaith, rhaid hysbysu Canolfan Gyswllt Glinigol WAST (CCC) fel y gellir dargyfeirio achosion i'r ysbyty agosaf sydd ar gael, sydd â'r cyfleusterau angenrheidiol i roi triniaeth, a rhaid cofnodi hyn fel digwyddiad difrifol.

### Cleifion sydd angen triniaeth frys arbenigol:

Rhaid i WAST a'r Byrddau Iechyd gytuno ar lwybrau gofal ar gyfer cleifion (o fewn Cynghreiriau Gofal Acíwt lle bo'n briodol). Dylid mynd â chleifion sydd angen triniaeth ar gyfer cyflyrau megis STEMI,

llosgiadau, strôc neu gyflyrau obstetrig yn syth i unedau derbyn gwahanol i Adran Achosion Brys yr ysbyty, yn unol â'r llwybr y cytunwyd arno'n lleol. Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys archwiliadau rheolaidd o gydymffurfiad â'r llwybrau hyn, fel rhan o'i weithgaredd cynllunio ymlaen ar gyfer archwiliad clinigol blynyddol.

## Trosglwyddo wrth Gyrraedd

### Brysbennu / cyfeirio:

Dylai bod canllawiau yn eu lle i alluogi criwiau ambiwlans i frysbennu cleifion i'r rhan gywir (e.e. Achosion Mawr neu Achosion Bychain) a nodi cleifion sy'n 'ddigon da i eistedd' yn yr ystafell aros. Dylai'r prosesau hyn fod wedi eu safoni rhwng y Byrddau Iechyd yng Nghymru. Pan fydd claf yn cyrraedd, rhaid ei drosglwyddo'n gywir i aelod o'r staff nyrsio neu'r staff meddygol. Dylid mynd â chleifion sydd mewn cyflwr sy'n bygwth bywyd, ee, trawiad cardiaidd neu resbiradol, diffyg ar y llwybr anadlu neu gleifion anymwybodol, ar unwaith i'r rhan adfywio neu eu cludo i'r cyfleuster agosaf a all gynnig adfywiad.

### Cofrestru:

Rhaid cofrestru cleifion yn syth wedi iddynt gyrraedd yr Adran Achosion Brys. Bydd staff WAST yn cwblhau Cofnod Clinigol Claf ar gyfer pob claf. Caiff copi WAST o'r ddogfennaeth hon ei gadw ar bin ddigidol y clinigwr. Rhoddir Cofnod Gofal Claf papur i'r ysbyty gan WAST ar gyfer pob claf fydd yn cael ei gludo. Rhaid i Fyrddau Iechyd gael systemau yn eu lle i sicrhau bod Cofnod Gofal Claf yr ambiwlans yn ffurfio rhan o nodiadau'r claf. Ni ddylai fod angen trosglwyddiad gweinyddol eilaidd o fanylion y claf i'r staff derbyn yn yr Adran Achosion Brys. Dylai fod cyfleuster ar gael i staff WAST "ddocio" eu pin ddigidol yn yr Adran Achosion Brys neu uned dderbyn arall.

**Cam Gweithredu 7 Dylai fod trefniant 'un stop' ar gyfer derbyn cleifion yn syth wedi iddynt gyrraedd yr Adran Achosion Brys**.

### Rheoli oedi:

Unwaith y bydd y cleifion wedi cyrraedd, dylai'r trosglwyddiad ddigwydd yn gyflym. Dylai'r Bwrdd Iechyd a WAST ymroi i weithio gyda'i gilydd yn ymarferol er mwyn osgoi unrhyw oedi cyn trosglwyddo. Ni ddylai criwiau WAST fod yn gyfrifol, fel mater o arferiad, am fonitro cleifion dros gyfnodau estynedig o amser y tu allan i'r Adran Achosion Brys, a chlinigwyr yr ysbyty ddylai fod yn gyfrifol am oruchwylio asesiad cleifion. Os bydd oedi'n digwydd, rhaid i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau ar unwaith i ddatrys y sefyllfa. Pan fydd ambiwlans yn cael ei dal yn ôl dros 30 munud, rhaid i'r camau gweithredu gynnwys y canlynol:

1. Rhaid hysbysu Canolfan Gyswllt Glinigol WAST a thîm gweithredol yr ysbyty yn syth.
2. Rhaid i staff meddygol a nyrsio uwch yr ysbyty, o'r holl arbenigeddau perthnasol, fod yn bresennol yn yr Adran Achosion Brys.
3. Rhaid i staff Adran Achosion Brys yr ysbyty sicrhau bod unrhyw glaf, sy'n disgwyl mwy na 30 munud, wedi cael ei asesu a'i fod yn cael ei symud yn syth i mewn i'r Adran Achosion Brys, os oes perygl i ddiogelwch y claf.
4. Rhaid i staff WAST sicrhau bod arsylwadau'r claf yn cael eu hailadrodd fel sy'n ofynnol ac unrhyw driniaeth yn parhau hyd nes y caiff y claf ei dderbyn i'r Adran Achosion Brys. Dylid symud unrhyw glaf sy'n ddifrifol wael, neu y mae ei gyflwr yn dirywio, i'r Adran Achosion Brys.

5. Dylai'r cleifion a'u gofalwyr gael eu hysbysu'n llawn am y rheswm dros unrhyw oedi a'r cynnydd wrth geisio datrys y broblem.

**Cam gweithredu 8** **Rhaid i staff clinigol ysbyty sicrhau bod unrhyw glaf, sy'n disgwyl mwy na 30 munud, wedi cael ei asesu a'i fod yn cael ei symud yn syth i mewn i'r ysbyty os oes perygl i ddiogelwch y claf.**

**Cam gweithredu 9** **Dylai'r cleifion a'u gofalwyr gael eu hysbysu'n llawn am y rheswm dros unrhyw oedi a'r cynnydd wrth geisio datrys y broblem.**

## Rheoli oedi am fwy na 60 munud:

Mae oedi am fwy na 60 munud yn annerbyniol, ac eithriad ddylai hyn fod. Dylai achosion o oedi felly fod yn hollol weladwy i'r Bwrdd Iechyd Lleol drwy ei systemau monitro digwyddiadau. Ar ôl oedi am 60 munud, rhaid i'r camau gweithredu canlynol gael eu cymryd, os nad ydynt wedi digwydd eisoes:

1. Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaethau Lleol / Aur o'r Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sydd ar alwad ar Swyddog Gweithredol o'r BILl perthnasol (i fewn a tu allan i oriau) cael eu hysbysu ar unwaith. Rhaid i'r ddau unigolyn yma gysylltu'n uniongyrchol i unioni'r sefyllfa.
2. Dylid sefydlu mesurau dargyfeirio ambiwlansys ffurfiol fel y disgrifiwyd ym mhroses uwchgyfeirio'r gweithredwyr, a gytunwyd rhwng y Bwrdd Iechyd a WAST. Dylid cytuno ar y broses uwchgyfeirio gyda chlinigwyr Adrannau Achosion Brys lleol.

## Gwneud gallu ysbytai yn fwy hyblyg:

Dylid cael systemau effeithiol yn eu lle drwy'r Polisi Uwchgyfeirio i atal rhwystrau rhag symud cleifion allan o'r Adran Achosion Brys. Rhaid i wardiau gynyddu eu gallu i dynnu cleifion allan o'r Adran Achosion Brys ar adegau pan fo'r galw ar ei uchaf. Dylai hyn gael ei reoli rhag risg er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mewn rhan sy'n cael ei goruchwylio'n glinigol mewn ffordd gymwys gyda staff cymwysedig priodol ac mewn amgylchedd addas. Diogelwch y claf yw'r flaenoriaeth bennaf a dylid rheoli unrhyw haint, neu unrhyw risg arall, yn ddiogel.

**Cam Gweithredu 10** **Rhaid i wardiau gynyddu eu gallu i dynnu cleifion yn ddiogel allan o'r Adran Achosion Brys ar adegau pan fo'r galw ar ei uchaf. Os bydd oedi sylweddol yn digwydd mewn ambiwlans, rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod trefniadau uwchgyfeirio effeithiol ar y safle yn ei gwneud yn bosibl rhyddhau ambiwlansys yn ddiymdroi.**

**Grant Robinson, Arweinydd Gofal Heb ei Drefnu GIG Cymru**
**Mai 2016**